# Nodiadau o gymorth i gystadleuwyr

**Disgwyliadau y Panel Beirniaid**

i. Mae'r panel o feirniaid yn edrych yn bennaf am syniad cryf sydd wedi ei archwilio yn ddwfn, sy'n teimlo'n wreiddiol a gyda pherthnasedd ar gyfer cynulleidfaoedd Cymraeg arloesol.
ii. Yn eich cais mae disgwyl i chi fel dramodwyr fod â dealltwriaeth o'ch llais fel awdur, a dangosiad clir mewn-weledol o'ch drama a'r stori yn ei gyfanrwydd.
iii. Mae gofyn i chi gyfleu eich syniad o fewn 30-45 munud o sgript / neu mae'r opsiwn i chi yrru triniaeth cryf – braslun o hyd at 2,500 gair ac esiamplau o dair golygfa o ddeialog.
iv. Ystyriwch y tirlun theatrig fel y mae hi yng Nghymru ar hyn o bryd, a gofynnwch i'ch hun be sydd ar goll?
v. Petai ymgeisydd yn rhoi sgript lawn i fewn, byddai hi'n ddefnyddiol bod cyflwyniad i'r weledigaeth ar ddechrau'r sgript.

---

**Beth yw gofynion creu <u>Triniaeth</u>** (braslun o hyd at 2,500 o eiriau a 3 golygfa)?

Dyma restr o bethau defnyddiol i chi ystyried.

[Does dim rhaid bod ag ateb pendant ar gyfer y cwestiynau isod ar y pwynt hwn. A does dim rhaid cadw at y drefn hwn o gwbl. Sbardun yn unig yw'r wybodaeth isod].

**A. Cyffredinol**

i. Rhowch deitl y gwaith a'ch ffugenw ar dop eich gwaith - gweler Canllawiau'r gystadleuaeth o dan geiriad y gystadleuaeth: Medal y Dramodydd | Eisteddfod ac ymgyfarwyddwch â Rheolau ac Amodau Cyffredinol yr Eisteddfod [Eisteddfod].

**B. Themâ/u**

i. Beth yw thema/u'r gwaith? Beth yw'r prif themâu?

**C. Cefndir a Stori**

i. **Crynodeb o'r stori.** Beth yw'r prif ddigwyddiadau o fewn y ddrama?
ii. **Cyflwyniad i'r cymeriadau**. Beth mae nhw eisiau neu'n ceisio ei gyflawni? Beth yw'r broblem neu heriau sy'n eu hwynebu? Beth yw'r tensiynau rhwng cymeriadau, neu rhwng cymeriad a'u hamgylchiadau?
iii. **Cyflwyniad i fyd y ddrama**. Lleoliad. Ble mae'r stori'n digwydd? Cyfnod a daearyddiaeth?
iv. **Strwythur –** beth yw dechrau, canol a diwedd y ddrama? Beth yw'r pwynt crisis? Beth yw siwrne'r cymeriadau/prif gymeriad? Beth yw uchafbwynt y ddrama?
v. **Ffurf y darn.** Ai sioe un person ar ffurf monolog ydi'r ddrama? Drama i ddau berson? Sioe gerdd? Yw'r ddrama yn digwydd mewn 'real time'? Ydi'r stori yn cael ei ddweud yn gronolegol, neu ydych chi am neidio'n ôl a blaen mewn amser?
vi. **Genre** – Comedi? Drama? Ydi hi'n ddrama naturiolaidd, neu oes elfennau mwy abswrd?

vii. **Cerddoriaeth (os yn berthnasol e.e. sioe gerdd)**. A fydd caneuon gwreiddiol yn ran bwysig o'r sioe?

**D. Pam y syniad hwn?**

i. Sut ydych chi eisiau effeithio eich cynulleidfa? Beth ydych chi eisiau iddynt deimlo ar ddiwedd y darn? (rhowch eich hunain yn esgidiau'r gynulleidfa)
ii. Pam y ddrama hon? O ble ddaeth yr ysbrydoliaeth?
iii. Perthnasedd: pam nawr? Beth sy'n ei wneud yn berthnasol i gynulleidfaoedd Cymru heddiw?
iv. Pwy yw eich cynulleidfa darged? Ystyriwch oedran penodol, os i blant neu bobl ifanc. Neu oes cymunedau penodol y bydda'r ddrama'n apelio ati?
v. Pam chi? Beth sy'n eich diddori a'ch cyffroi chi am y syniad? Oes rheswm mae chi yw'r person gorau i ddweud y stori neu archwilio'r pwnc yma?

**CH. Pwyntiau Ymarferol**

i. Gellid cynnwys efallai ble rhagwelir ei pherfformio - ar lwyfan gonfensiynol neu mewn man arall.
ii. Hyd y ddrama. A oes egwyl?
iii. Nifer y cast – o fewn canllawiau'r gystadleuaeth [dim mwy na 5 perfformiwr].

**E. Adnoddau / Dylanwadau / Cyfeirnodau**

i. Oes dramâu eraill sy'n debyg o ran naws neu ffurf sydd wedi eich ysbrydoli? Neu raglenni teledu/ffilmiau?
ii. Dyfyniadau o straeon newyddion?
iii. Ydych chi eisiau cynnwys delweddau sydd yn help i gyfleu teimlad y darn?

# Helpful Notes for Competitors:

**Adjudicator's Expectations**

i. The panel of adjudicators is mainly looking for a strong idea that has been explored in depth, feels original, and is relevant for innovative Welsh-speaking audiences.
ii. In your application, you are expected, as a playwright, to demonstrate an understanding of your voice as an author and provide a clear visual sense of your play and its story.
iii. You must convey your idea within a **30–45-minute script**, or you have the option to submit a **strong treatment** – an outline of up to 2,500 words and examples of three scenes of dialogue.
iv. Consider the theatrical landscape as it currently exists in Wales, and ask yourself: what is missing?
v. If an applicant submits a full script, it would be useful to include an introduction to the vision at the beginning of the script.

---

**What are the requirements for creating a Treatment** (outline of up to 2,500 words and 3 scenes)?

Here is a list of useful things for you to consider.
[You do not need to have definitive answers to the questions below at this stage. Nor do you need to stick to this order. The information below is just a prompt].

**A. General**

i. Include the title of the work and your pseudonym at the top of your work – see the competition guidelines under the wording of the competition: *Playwright's Medal - further information* as well as the General Rules and Conditions of the Eisteddfod *General Rules and Conditions*.

**B. Theme(s)**

i. What is/are the theme(s) of the work? What are the main themes?

**C. Background and Story**

i. **Summary of the story.** What are the main events within the play?
ii. **Introduction to the characters.** What do they want or seek to achieve? What is the problem or challenges they face? What are the tensions between characters, or between a character and their circumstances?
iii. **Introduction to the world of the play.** Setting. Where does the story take place? Time period and geography?
iv. **Structure** – what is the beginning, middle, and end of the play? What is the crisis point? What is the journey of the characters/main character? What is the climax of the play?
v. **The form of the piece.** Is the play a one-person show in the form of a monologue? A two-person play? A musical? Does the play happen in 'real time'? Is the story told chronologically, or do you want to jump back and forth in time?
vi. **Genre** – Comedy? Drama? Is it a naturalistic play, or does it have more absurd elements?

vii. **Music** (if relevant, e.g., a musical). Will original songs be an important part of the show?

**D. Why this idea?**

i. How do you want to affect your audience? What do you want them to feel at the end of the piece? (Put yourself in the audience's shoes)
ii. Why this play? Where did the inspiration come from?
iii. Relevance: why now? What makes it relevant to audiences in Wales today?
iv. Who is your target audience? Consider a specific age group, whether for children or young people. Or are there specific communities the play will appeal to?
v. Why you? What interests and excites you about the idea? Is there a reason you are the best person to tell this story or explore this subject?

**E. Practical Points**

i. You could include where you envisage it being performed – on a conventional stage, or in another space.
ii. Length of the play. Will there be an interval?
iii. Number of cast members – within the competition guidelines [no more than 5 performers].

**F. Resources / Influences / References**

i. Are there other plays similar in tone or form that have inspired you? Or TV shows/films?
ii. Quotes from news stories?
iii. Do you want to include images that help convey the feel of the piece?